# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw*

***27 Mawrth 2012***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

## *1 – <u>Ffioedd a Thaliadau</u>*

1.1 Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2012/13 wedi eu cytuno gyda'r Arweinydd Portffolio. I sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r taliadau a ddaw, mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi cysylltu â'r holl gleientiaid ac wedi eu hysbysu o'r ffioedd a'r taliadau diwygiedig.

1.2 Mae copi o ffioedd a thaliadau harbwr Abermaw ac Aberdyfi yn atodol, ac fe fydd yr Aelodau yn nodi yr argymhellir fod cynnydd o **2.5%** yn ffioedd a thaliadau'r harbwr i bob cwch fydd yn angori yn yr ardal sydd o dan awdurdod harbwr Abermaw ac Aberdyfi yn 2012/13.

1.3 Rhagwelir y bydd y cynnydd yn harbwr Abermaw am 2012/13 yn **1.69%,** ffigwr sydd wedi ei selio ar nifer o ffactorau sy'n codi a gostwng uwchben lefel chwyddiant (trydan ac ati). Fel y cofia'r aelodau, mae'r cynnydd mewn cyflogau wedi aros yn llonydd am y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae cynnydd bach wedi ei ymgorffori ym mynegrif pob cyllideb. O'i gymharu gydag Abermaw, mae'r Raddfa Chwyddiant gaiff ei darogan yn Aberdyfi yn **2.08%**

1.4 Gyda'r graddfeydd chwyddiant a soniwyd amdanynt eisoes wedi eu hystyried mae'r cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i Abermaw am 2012/13 yn **£780** sy'n dod a chyfanswm y targed incwm i **£46,860** am y flwyddyn**.** Er bod diffyg sylweddol yn yr incwm i harbwr Abermaw, rhagwelir bod y cynnydd yn y ffioedd angori ar lefel sydd ychydig uwchben chwyddiant unwaith eto yn 2012/13 a bydd hyn yn pontio'r cyfanswm sy'n parhau i gynyddu wrth gymharu'r targed incwm gyda'r incwm diwedd blwyddyn sy'n cael ei greu. Mae cwrdd â'r targed incwm yn bwysig yn enwedig o gofio bod disgwyl i ni gadw oddi fewn i'r gyllideb gyda gwariant.

1.5 O safbwynt harbwr Aberdyfi a bod y raddfa chwyddiant wedi ei darogan i fod yn **12.08%** bydd y targed incwm cyffredinol i Aberdyfi yn 2012/13 yn **£40,700**.

1.6 Bydd yr aelodau yn ymwybodol fod y targed incwm yn Abermaw ac yn Aberdyfi yn tangyflawni'r targed gofynnol yn barhaus ac mae hyn wedi bod yn gyson am nifer o flynyddoedd. Fel y disgwylir mewn amgylchiadau ariannol difrifol, mae mesurau pellach parhaus ac arbedion effeithlonrwydd wedi eu hadnabod a'u trafod. Bydd angen cymryd camau blaengar i sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau, heb gyfaddawdu ar safonau a diogelwch.

1.7 Mae'r ffioedd a'r taliadau i gofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol hefyd wedi cynyddu am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae ffioedd lansio yn aros yn sefydlog ar £12.00 yr un i lansio dyddiol. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer wedi'i atodi.

1.8 Mae'r cynnydd yn nharged incwm cyffredinol yr Uned Forwrol am 2012/13 yn **£94,800** sy'n cymharu gyda tharged a gynyddwyd o **£57,330** yn 2011/12. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol (heb gynnwys Parciau Gwledig) i **£2,467,550** yn 2012/13, targed sylweddol fydd yn her i'w gyrraedd yn yr hinsawdd economaidd fregus a chyfnewidiol sydd ohoni..

## ***2. - <u>Cyllidebau</u>***

2.1 Mae sefyllfa ariannol harbwr Abermaw ac Aberdyfi am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Rhagfyr 2011, yn atodol er gwybodaeth. Bydd yr aelodau yn nodi fod y targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Abermaw am 2011/12 yn **£46,080** ac mai'r cyfanswm incwm a grëwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 yw **£32,602**. Mae hyn o'i gymharu gyda chasglu **£32,569** mewn incwm am yr un cyfnod y llynedd.

2.2 O'r 31ain Rhagfyr 2011, mae'r diffyg mewn incwm yn harbwr Abermaw yn **£13,478.** Roedd y diffyg am yr un cyfnod y llynedd yn **£13,531** a diffyg o **£16,601** yn 2009/10. Mae cyfanswm yr incwm hyd yma'n debyg i'r llynedd ac mae'n dangos yn glir bod tueddiad cyffredinol a chysondeb yn y diffyg incwm yn flynyddol. Nid ydym yn rhagweld y bydd swm sylweddol o incwm yn cael ei greu yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol, ac felly disgwylir na fyddwn yn cyrraedd targed incwm harbwr Abermaw. Rydym yn darogan y bydd y gwariant cyffredinol yn Abermaw oddeutu **£15,000** dros y targed gofynnol ac mae hyn yn cynnwys lleihau nifer y staff dros y gaeaf mewn ymdrech i gwrdd â tharged y gyllideb.

2.3 Mae cyfanswm y gwariant cyffredinol wedi ystyried y targed incwm ac o gofio am y gorwariant sylweddol a ragwelir, fe fydd yn rhaid adnabod arbedion ychwanegol yn holl benawdau'r gyllideb. Mae hi'n annerbyniol i'r gwariant fod yn uwch yn barhaus na'r gyllideb a ddyrannwyd gan fod yn rhaid i unrhyw orwariant gael ei adnabod yng nghyllideb yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig.

2.4 O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion fe fydd 2011/12 yn flwyddyn heriol iawn i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn enwedig i harbwr Abermaw ac Aberdyfi sy'n dangos eu bod angen cymorth ariannol ychwanegol. Pwysleisir y bydd rhaid goresgyn y gorwariant a'r diffyg mewn incwm, yn enwedig o gofio'r gostyniad cyffredinol sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion sydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.

2.5 O'i gymharu, mae'r targed incwm i Aberdyfi am yr un cyfnod yn **£39,870** ac mae cyfanswm o **£30,983** wedi ei gyrraedd gan adael diffyg yn Aberdyfi o **£8,887**. Er hynny, disgwylir y bydd arbediad o tua **-£10,000** yn y gyllideb wariant a fydd yn ei dro yn dangos tan wariant cyffredinol o tua **-£2,000 yn Aberdyfi** ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. O gofio am y gostyngiad yn y gwariant cyffredinol yn Aberdyfi, fe fydd cyfanswm y gorwariant i'r ddau harbwr efallai yn lleihau.

2.6 Yn y cyfarfod diwethaf, mynegodd yr Aelodau bryder fod yr Uned Forwrol yn rhoi cyfle i gleientiaid angori eu cychod yn Hafan Pwllheli dros fisoedd y gaeaf a bod y cam yma'n lleihau nifer y cychod oedd yn gaeafu yn Abermaw. Roedd cyfanswm y cychod a fanteisiodd ar y cyfle yma yn 2011 fel a ganlyn;
Harbwr Allanol Pwllheli = 26 Aberdyfi = 0 Porthmadog = 4 Abermaw = 6

## 3 ***Mordwyo***

3.1 Mae’r holl gymhorthion mordwyo sy’n arwain i Harbwr Abermaw wedi aros yn eu lle yn ystod rhan gyntaf y gaeaf. Bydd Tŷ’r Drindod yn ail archwilio’r holl Gymhorthion Mordwyo yn ystod haf 2012. Ar ôl cais gan aelodau yn y cyfarfod diwethaf, sicrhawyd fod lleoliad y Cymhorthion Mordwyo ar y Bar wedi eu gwirio a bod y lleoliadau presennol yn gywir.

3.2 Mae hi’n hanfodol fod gwaith cynnal yr holl Gymhorthion Mordwyo yn y sianel fordwyo yn cael ei adnabod a’i gwblhau cyn gwyliau’r Pasg sydd ar benwythnos cyntaf mis Ebrill. Bydd y Swyddog Morwrol- Harbyrau yn rhoi adroddiad llafar i’r aelodau am y gwaith a wneir ar y bwiau dros y gwanwyn.

3.3 Bydd angen adnabod arian o’r gyllideb refeniw bresennol i gwrdd â'r gost o gynnal y Cymhorthion Mordwyo gan fod hyn yn ddyletswydd statudol.
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Rybuddion i Forwyr yn weithredol yn harbwr Abermaw.

3.4 Mae’r sianel sy’n arwain at harbwr mewnol Abermaw yn sefydlog iawn ac mae'r gwaith o ail-leoli'r Cymhorthion Mordwyo yn ychydig iawn. Mae lleoliad Cymhorthion Mordwyo Abermaw fel a ganlyn:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Bwi Sianel Fordwyo** | **52° 42.72' N** | **004° 04.91' W** | **– L Fl. 10s** |
| **Bwi Bar** | **52° 42.56' N** | **004° 04.33' W** | **– Qk. Fl G** |
| **Bwi Can Rhif 2** | **52° 42.57' N** | **004° 04.14' W** | **– Fl R. 2s** |
| **Bwi Can Mewnol** | **52° 42.64' N** | **004° 03.94' W** | **– Dim llusern** |
| **Golau’r Glwyd** | **52° 71.62' N** | **004° 06.21' W** | **– Golau i‘w osod** |
| **Morwal** | **52° 71.65' N** | **004° 05.20' W** | **– Fl.R.5s** |
| **Bwi Arllwysfa’r *Garthffos*** | **52° 43.19' N** | **004° 05.35' W** | **– Fl Y.5s** |

3.4 Mae Golau’r Glwyd wedi ei newid ac mae bellach yn ei le. Gosodwyd y golau ar y 7fed Mawrth 2012 gan gontractwr lleol. Awdurdododd Tŷ’r Drindod i’r Cymhorthion Mordwyo gael eu newid o Farc Port i Cardinal De. Hyd yma, nid yw’r llusern wedi ei gosod ond disgwylir y bydd yn arddangos y golau mordwyo priodol a bydd y golau wedi ei osod cyn Pasg 2012. Cost golau newydd i’r glwyd oedd £2,247.

3.5 I ymateb i bryder yr aelodau, roedd y Swyddog Morwrol – Harbyrau wedi cadarnhau fod yr holl Gymhorthion Mordwyo sy’n arnofio drwy’r flwyddyn â thâp adlewyrchu golau arnynt. Er bod llusern wedi ei gosod ar y Bwiau Mordwyo fe wnaeth yr aelodau ofyn o’r blaen fod mesurau ychwanegol yn cael eu cymryd a fyddai’n galluogi’r morwr i wybod ble roedd y bwi pe byddai’r llusern yn diffodd.

3.6 Yn ystod y blynyddoedd blaenorol mae’r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi ceisio sicrhau y gellid adnabod Parth Eithrio Cychod yn agos at y traeth. Er hynny, collwyd nifer sylweddol o fwiau ac angorfeydd bob blwyddyn. Ymhellach, gwelwyd fod Parth Eithrio Cychod yn Fairbourne wedi ei adnabod i fod yn aneffeithiol oherwydd y pellter sylweddol roedd yn rhaid gosod y bwiau i ffwrdd o’t traeth. Ar lanw uchel roedd y bwiau mor bell o’r lan fod eu heffaith yn ychydig iawn.

3.7 O gofio fod bwiau marcio'r Parth Eithrio Cychod wedi eu hadnabod i fod yn aneffeithiol dros y blynyddoedd diwethaf roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o beidio lleoli bwiau yn yr ardal yn 2012 ar sail prawf. Dyma hefyd fydd y sefyllfa ar draeth Abermaw. Bydd yr ardal i'r dwyrain o bont rheilffordd Abermaw yn cael ei marcio yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau, ac mae gofyniad i'r ardal gael ei hadnabod yn glir cyn diwedd Ebrill 2012.

## *4 - __Staff__*

4.1 Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr Abermaw yn ystod y tymor a ddaw a chynhaliwyd cyfweliadau ar y 16eg o Fawrth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ei ddyletswyddau ar yr 2il Ebrill a bydd y penodiad yn cael ei ymestyn i'r 30ain Medi 2012. Mae'r swydd yma'n destun adolygiad a bydd penderfyniad yn cael ei wneud am y posibilrwydd o ail-sefydlu swydd Cymhorthydd Harbwr llawn amser yn Abermaw. Er hynny, o gofio am y sefyllfa ariannol mae hyn yn annhebygol.

O ystyried y gostyngiad garw mewn arian sydd ar gael i Awdurdodau Lleol, mae hi'n hanfodol fod yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn dangos yn glir fod angen swydd Cymhorthydd Harbwr yn Abermaw ac Aberdyfi drwy gydol y flwyddyn. Cyflwynir dadansoddiad manwl o'r gwaith a wnaed yn Abermaw yn ystod Hydref i Ragfyr gan y Swyddog Morwrol – Harbyrau a bydd y manylion ar gael i'w craffu. Rhoddir pwyslais ar yr angen i ddangos cynhyrchiant ac effeithlonrwydd wrth ymgymryd â gwaith yn yr harbwr yn ystod y gaeaf a heb hyn ni fyddai'n ddoeth ail-sefydlu swydd barhaol lawn amser yn Abermaw.

Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi hefyd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyflogi o'r 2il Ebrill i'r 30ain Medi 2012.

4.2 Yn ystod prif ran tymor yr haf rhagwelir y penodir tri (uchafswm o 4) swyddog traeth i reoli Gwobr y Faner Las yn Abermaw a bydd y rhai a benodwyd gobeithio yn gallu dechrau ar eu dyletswyddau yng nghanol mis Mehefin. Nid ydym yn rhagweld y bydd swyddog traeth yn cael ei benodi yn Fairbourne yn 2012.

## *5 – __Gwobr Traeth__*

5.1 Rydym yn falch iawn o gael adrodd fod yr Uned Forwrol wedi cyflwyno cais am Wobr Traeth y Faner Las i draeth Abermaw yn 2012. Llwyddodd ansawdd y dŵr ymdrochi yn 2011 i gyrraedd y Safon Canllaw ac felly gellir cyflwyno cais am y Faner Las Ryngwladol.

5.2 Yn atodol, mae rhestr fanwl o ganlyniadau'r prawf dŵr ymdrochi yn Abermaw yn 2011. Bydd yr aelodau hefyd yn gallu cymharu Ansawdd Dŵr Ymdrochi Abermaw gydag Aberdyfi a Fairbourne..

5.3 Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod newid sylweddol yn y Gyfarwyddeb bresennol ac mae'r amserlen i'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi a ddiwygiwyd fel a ganlyn.

- **2012**: Mae hi'n orfodol fod arwyddion priodol yn eu lle i'r holl draethau Dŵr Ymdrochi Dynodedig erbyn dechrau'r tymor ymdrochi h.y. dechrau mis Mai. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dechrau ar waith monitro'r Traethau Dynodedig gan ddefnyddio paramedrau'r

Gyfarwyddeb ddiwygiedig. Mae arian grant wedi ei ddiogelu i'r arwyddion ac mae'r Uned wedi cyflwyno cais am gymorth grant.

- **2014**: Adroddiad Dyfroedd Ymdrochi Terfynol yn defnyddio safonau'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi bresennol.

- **2015:** Cyhoeddi'r set gyntaf o ddosbarthiadau yn defnyddio'r paramedrau newydd i Ddyfroedd Ymdrochi a bydd hyn wedi ei seilio ar y set data sy'n dechrau yn 2012.

- **2016** Bydd dosbarthiadau newydd yn ymddangos ar yr arwyddion gan ddefnyddio symbolau sy'n cael eu paratoi gan y CE.

5.4 Fel yr adroddwyd i'r Aelodau, daw'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd newydd i rym yn 2015, a bydd cwrdd â'r meini prawf caeth i Ddyfroedd Ymdrochi a osodir gan y Gyfarwyddeb newydd yn heriol. Bydd pedwar dosbarth o ddyfroedd ymdrochi o dan y gyfarwyddeb ddiwygiedig, sef: Ardderchog; Da; Digonol; Gwael.

## 6 - ***Materion Cyffredinol***

6.1 **Consesiynau Traeth -** Fel arfer, mae'r Uned Forwrol yn awdurdodi nifer o gonsesiynau i weithredu ar y traeth yn Abermaw yn ystod tymor yr haf. Gwrthodwyd cais i werthu nwyddau bwytadwy o safle sefydlog ar y promenâd. Cafwyd cefnogaeth gan Gyngor y Dref i wrthod y cais i werthu nwyddau bwytadwy. Cyflwynwyd cais newydd ble mae'r ymgeisydd yn gofyn am ganiatâd i logi cadeiriau haul ar y traeth. Bydd yr Uned Forwrol yn cefnogi'r cais wedi cael cadarnhad bod Cyngor y Dref yn ei gefnogi.

Rhagwelir y bydd cais newydd yn cael ei gyflwyno am gonsesiwn i weithredu gweithgareddau hamdden a reidiau mulod ar y traeth. Un o brif atyniadau Abermaw yw'r Trên Tir sy'n gweithredu ar y promenâd rhwng Ebrill a Medi ac rydym wedi derbyn ac awdurdodi cais i weithredu'r Trên Tir ar y promenâd yn 2012.

6.2 **Motorcross** – Cynhaliwyd digwyddiad poblogaidd Motor Cross ar y prif draeth yn Abermaw yn ystod penwythnos yr 29ain a'r 30ain Hydref 2011. Mae'r digwyddiad yn boblogaidd iawn ac yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr i'r ardal. Cynhelir y digwyddiad eto yn 2012 a chadarnhawyd mai'r dyddiadau yw'r 27ain a'r 28ain o Hydref 2012.

Mae mwyafrif yr ardal a ddefnyddir i'r digwyddiad y tu allan i'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond mae rhan gymharol fechan o Ynys y Brawd oddi fewn i'r ardal gadwraeth. Mae hi'n orfodol i'r trefnwyr sicrhau bod y cwrs y tu allan i'r ardal gadwraeth. Mae hi hefyd yn orfodol iddynt sicrhau nad oes unrhyw niwed wedi ei achosi i'r twyni newydd sydd wedi eu lleoli yn agos i'r sarn. Unwaith fo system y twyni wedi ei sefydlu dylai atal tywod rhag cael ei chwythu gan y gwynt a mynd ar y sarn.

6.3 **Ardal y Lloc** – Mae'r ardal a neilltuwyd i gadw offer morol yn parhau i achosi pryder. Caiff ei defnyddio o hyd i gael gwared â dodrefn tŷ does neb ei eisiau. Mae staff o'r Uned Forwrol yn rheoli'r safle yn ddyddiol ac maent wedi symud sawl tunnell o ddeunyddiau o'r lloc ar gost sylweddol, o ran amser ac adnoddau.

Bydd yr aelodau yn ymwybodol y codir ffi ar y rhai sydd â thrwydded i ddefnyddio'r lloc. Cyfanswm yr incwm a gafwyd o'r tir yn 2011/12 oedd £3,800. Roedd yr incwm ychwanegol a grëwyd o gadw cychod yn ardal y lloc oddeutu £1,500.

O gofio fod y gwaith o reoli'r ardal yn bwysau ychwanegol ar y gyllideb ac ar amser staff, mae'r uned forwrol o'r farn y byddai'n well ac o fudd i'r lloc gael ei roi ar y rhestr o asedau y gellid ystyried eu gwerthu. Byddai angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Ardal cyn cymeradwyo i werthu'r ased. Gofynnir am farn yr aelodau yn y cyfarfod.

6.4 **Tablau Llanw** – Mae'r Uned Forwrol wedi cyhoeddi tablau llanw am nifer o flynyddoedd a chydnabyddir fod Abermaw yn Borthladd Safonol. Gwerthir y Tablau Llanw ac mae nifer o fusnesau lleol yn eu gwerthu i'r cyhoedd. Nid yw'r Uned Forwrol yn cynhyrchu tablau llanw i unrhyw harbwr arall o dan ei awdurdod, er bod iardiau cychod a siandleriaid yn cyhoeddi tablau llanw ac un ai yn darparu gwybodaeth o'r fath yn rhad ac am ddim i gwsmeriaid neu yn cynnig yr wybodaeth ar werth i'r cyhoedd.

Mae'r gost o gael gwybodaeth am y llanw o'r arsyllfa yn £210.00. Cost argraffu'r tablau llanw yw 0.60 yr uned. Argraffwyd 3,000 o dablau llanw yn 2012 a'r gost oedd £1,800. Felly, cyfanswm cost cynhyrchu'r tablau llanw yw £2,010. Mae'r tablau llanw ar werth ymhob swyddfa harbwr am £2.00 y copi. Rhoddir gostyngiad i siopau sy'n prynu mwy na 50 copi. Roedd yr incwm a gafwyd o werthu'r tablau llanw yn 2010/11 yn £3,192 gyda'r gost o'u cynhyrchu yr un fath yn 2012.

O gofio nad yw'r incwm ddaw o werthiant y tablau llanw yn cynnwys unrhyw gostau gweinyddol ac ati, a bod yr wybodaeth ar gael o ystod eang o ffynonellau rydym yn ystyried y posibilrwydd o allanoli gwaith cyhoeddi'r tablau llanw yn y blynyddoedd a ddaw.

6.5 **Datblygiad Pontŵn** – Mae hi'n galonogol rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod y prosiect presennol i osod pontŵn i ymwelwyr ar ochr y cei yn Abermaw yn mynd yn ei flaen yn ardderchog. Menter gan aelodau Clwb Hwylio Meirionnydd yw'r prosiect ac maent wedi llwyddo i dderbyn cymorth grant gan gronfa 'Sblash' Asiantaeth yr Amgylchedd, a hefyd grant 'Cae' gan Barc Cenedlaethol Eryri.

Cafodd y prosiect drafferthion technegol ond llwyddwyd i'w goresgyn. Cafwyd cefnogaeth ariannol gan Gyngor Gwynedd i dalu am gost y Drwydded Forol a'r Ceisiadau Cynllunio. Roedd cost y Drwydded Forol ei hun yn £2,275, a chost y Cais Cynllunio yn £731.00. Roedd cost y Cais Cynllunio yn cynnwys y gofyn i hysbysebu'r cais yn y wasg leol.

Rhagwelir y bydd prif elfennau prosiect y pontŵn wedi eu cwblhau cyn diwedd mis Mawrth.